WEN Wales Cymru

# Cyfarwyddwr RhCM Cymru

# Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

# NEGES GAN EIN CADEIRYDD

Ein nod yn y Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) yw Cymru sy'n rhydd o wahaniaethu ar sail rhywedd.

Dan ein harweiniad presennol rydym wedi tyfu o ran ein haelodaeth, ein hygrededd a'n pŵer i lywio newid.

Rydym mewn safle hynod o gryf – rydym yn chwaraewr dylanwadol sy'n siapio polisïau cydraddoldeb Llywodraeth Cymru, ac yn llais arweiniol yn ein sector.

Rydym yn cael ein cefnogi gan bartneriaethau cryf dros newid, a rhwydwaith cynyddol o sefydliadau ac unigolion y mae eu cefnogaeth wedi ein helpu i ennill ymgyrchoedd allweddol. Er enghraifft, rydym wedi sicrhau ymrwymiad i gwotâu rhywedd sy'n gyfreithiol-rwym a gwell mynediad at wasanaethau erthylu, ynghyd â sicrhau y bydd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Gwahaniaethu yn Erbyn Menywod (CEDAW) yn cael ei ymgorffori yng nghyfraith Cymru.

Ond mae gennym dipyn o ffordd i fynd o hyd – mae yna dri maes allweddol ble y gwyddom fod yna ragor i'w wneud. Mae'r tair blaenoriaeth strategol hynny fel a ganlyn:

- Arweinyddiaeth amrywiol a chyfartal
- Gwneud gofal yn deg
- Cryfhau a gwreiddio hawliau dynol menywod yng Nghymru

Os ydych yn barod am yr her, byddwch yn ymuno â sefydliad dynamig, bywiog. Rydym yn gweithio mewn modd hyblyg ac yn arwain trwy esiampl o ran bod yn amrywiol, yn gynhwysol ac yn garedig.

Yn fy rôl o fod yn Gadeirydd, rwy'n eithriadol o falch o ba mor galed yr ydym wedi gweithio i wneud RhCM Cymru yn sefydliad lle y gall pob menyw deimlo ei bod yn cael ei chynrychioli, pwy bynnag ydyw, ac yn sefydliad lle y rhoddir gwerth ar bob aelod o staff, lle y mae'n teimlo'n ddiogel a bod ganddo gefnogaeth, a lle y mae'n cael ei gymell i gyflawni ei gorau. Rydym yn lle arbennig i weithio ynddo.

Os ydych yn barod i ysgogi'r RhCM yn ei flaen i gyflawni'r her o wneud Cymru'n wlad sy'n rhydd o wahaniaethu ar sail rhywedd, hoffem glywed gennych.

Mary Ann Brocklesby

# RYDYM YN RECRIWTIO!
# WE ARE RECRUITING!

## CYFARWYDDWR RHCM CYMRU

### Ni yw Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru...

**a'n gweledigaeth yw creu Cymru sy'n rhydd o wahaniaethu ar sail rhywedd. Ein cenhadaeth yw Cymru lle y mae gan bawb awdurdod a chyfle cyfartal i lunio cymdeithas a'u bywydau eu hunain.**

'Nawr, ar ôl 5 mlynedd wych sydd wedi gweld twf a dylanwad eithriadol trwy ein gwaith, rydym yn chwilio am Gyfarwyddwr newydd i'n harwain trwy gyfnod newydd cyffrous o'n taith.

Rydym yn sefydliad bach ac mae gennym uchelgeisiau mawr, felly bydd hyn yn heriol, ond, gyda thîm RhCM Cymru, ei bartneriaid, a'i aelodau wrth eich ochr, bydd y cyfnod hwn yn ddiddorol, yn fewnweledol, yn ysbrydoledig ac yn rhoi llawer o foddhad.

Felly, os ydych yn ymrwymedig i Gymru sy'n rhydd o wahaniaethu ar sail rhywedd, ac yn fedrus wrth wneud y canlynol: llywio meysydd cymhleth cydraddoldeb, cynhwysiant, a hawliau dynol; arwain, tywys a harneisio sefydliad gwych a thîm amrywiol; a meithrin perthnasoedd a phartneriaethau cadarn, yna byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

I gael sgwrs anffurfiol am y rôl ac am RhCM Cymru, mae croeso i chi gysylltu â Kate Carr: Kate@arc.cymru

### EIN PECYN

- £54,000 y flwyddyn
- 37.5 awr yr wythnos, gweithio hyblyg
- 33 diwrnod o wyliau blynyddol, gan gynnwys Gwyliau Banc
- Pensiwn Cyfrannol

### RHAGOR O WYBODAETH

www.wenwales.org.uk

Dyddiad Cau: 7 Gorffennaf (18:00)

# CYFARWYDDWR RhCM CYMRU

A chithau'n arweinydd a llefarydd allweddol ar gyfer y sefydliad, eich rôl yw lobïo, dylanwadu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i lunio, datblygu a chyflawni gweledigaeth a strategaeth RhCM Cymru

## DYLETSWYDDAU ALLWEDDOL

### Cyfeiriad y Strategaeth a Llywodraethu

Gweithio gyda'r Bwrdd i bennu'r strategaeth a sicrhau bod yr elusen yn gweithio i gyflawni ei blaenoriaethau strategol

Cefnogi'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau i gynnal trefniadau llywodraethu da

Cefnogi'r Bwrdd i wneud penderfyniadau busnes da trwy ddarparu adroddiadau a gwybodaeth rheoli

### Codi Arian, Polisi a Chyfathrebu

Goruchwylio'r gwaith o ddatblygu ein strategaethau Codi Arian a Rhanddeiliaid, a'u rhoi ar waith

Sicrhau piblinell gadarn o geisiadau am gyllid

Mabwysiadu dull seiliedig ar dystiolaeth, cynrychioli sefyllfa polisi RhCM ac arwain agweddau trwy waith RhCM Cymru gyda'r cyhoedd

Bwrw ymlaen ag ymgyrchoedd grymus a sicrhau ein bod yn cynnal proffil uchel ledled yr holl gyfryngau

### Pobl a Gweithrediadau

Darparu arweinyddiaeth gadarn ac empathig i dîm y staff ac i'r gwirfoddolwyr, gan feithrin eu talent a'u helpu i gyflawni eu hamcanion.

Bod yn ddi-ildio, yn gyfrifol ac yn garedig

Sicrhau rheolaeth ariannol ddiysgog a rheoli cyllidebau mewn modd cadarn

Sicrhau ein bod yn bodloni'r holl ofynion statudol a gofynion adrodd, gan gynnwys y GDPR

## MAE LLWYDDIANT YN YMWNEUD Â'R CANLYNOL...

- Ennill ymgyrchoedd
- Arwain agweddau yn y sector cydraddoldeb
- Ymgysylltiad a chyfranogiad helaeth gan ein haelodau, ein cefnogwyr a'n partneriaid yn ein gwaith
- Twf mewn aelodaeth

## Y TÎM

- Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus
- Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Rheolwr Ymgyrch 5050Amrywiol
- Rheolwr Mentora Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal
- Rheolwr Partneriaethau a Chodi Arian
- Swyddog Mentora Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal
- Swyddog Cyllid
- Swyddog Gweinyddol

# AMDANOCH CHI

A chithau'n arweinydd a llefarydd allweddol ar gyfer y sefydliad, eich rôl yw lobïo, dylanwadu, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i lunio, datblygu a chyflawni gweledigaeth a strategaeth RhCM Cymru.

## I FOD YN LLWYDDIANNUS BYDD ARNOCH ANGEN:

**Sgiliau a galluoedd yn y meysydd canlynol:**

- Arweinyddiaeth: harneisio amrywiaeth meddwl a meithrin ymdeimlad o berthyn i bawb sy'n ymwneud â'r sefydliad
- Datblygu rhwydweithiau a phartneriaethau
- Cynhyrchu incwm
- Lobïo a dylanwadu ar ystod eang o randdeiliaid
- Gweithio'n hyderus gyda'r wasg a'r cyfryngau darlledu
- Rheolaeth ariannol; rheoli pobl; a rheoli prosiectau

**Profiad o'r canlynol:**

- Rôl uwch-arweinydd
- Datblygu a chyflawni strategaethau
- Datblygu polisïau ac ymgyrchoedd
- Lobio ac ymgyrchu

**Gwybodaeth gref am y canlynol, a dealltwriaeth gadarn ohonynt:**

- Materion cydraddoldeb menywod
- Materion strategol ac ymarferol sy'n effeithio ar sefydliadau sy'n gweithio i gefnogi menywod a merched yng Nghymru
- Strwythurau a gweithrediadau gwleidyddol y Senedd a San Steffan

# Disgrifiad Swydd

Mae RhCM Cymru yn recriwtio Cyfarwyddwr newydd i oruchwylio'r cam cyffrous nesaf yn natblygiad ein helusen aelodaeth, sy'n hyrwyddo ac yn ymgyrchu dros hawliau menywod a chydraddoldeb yng Nghymru.

Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, rydym wedi tyfu o ddau i wyth aelod o staff, wedi dyblu ein hincwm, ac wedi ennill ymgyrchoedd pwysig. 'Nawr rydym am gymryd y cam nesaf ar ein taith i gyflawni gweledigaeth o Gymru sy'n rhydd o wahaniaethu ar sail rhywedd, a hynny gyda Chyfarwyddwr newydd wrth y llyw.

Bydd ein tîm gwych, ein rhaglen fentora arobryn, Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal, ein hymgyrch 5050Amrywiol lwyddiannus, ein Cerdyn Sgorio Ffeministaidd, ein gwaith yn y cyfryngau, a'n haelodaeth amrywiol, i gyd yn ysgogi eich diddordeb ac yn eich ysbrydoli i gymryd rhan yn ein sefydliad bach ond dylanwadol.

**Bydd y canlynol yn wir amdanoch:**

- Yn ddynamig ac yn llawn cymhelliant
- Yn meddu ar hanes o ennill ymgyrchoedd
- Yn rhwydweithiwr a chyfathrebwr rhagorol
- Yn fedrus wrth feithrin a chynnal partneriaethau cryf â sefydliadau eraill
- Yn ymrwymedig i groestoriadedd a Chymru sy'n rhydd o wahaniaethu ar sail rhywedd
- Yn cyd-fynd â gwerthoedd RhCM Cymru: Cyfrifol, Di-ildio, Caredig

| | |
|---|---|
| **Swydd-ddisgrifiad:** | Cyfarwyddwr RhCM Cymru |
| **Lleoliad:** | Caerdydd |
| **Oriau gwaith:** | 37.5 awr yr wythnos |
| **Cyflog:** | £54,000 |
| **Yn adrodd i:** | Y Cadeirydd |

Prif amcanion y rôl:
·Cyflawni gweledigaeth a strategaeth RhCM Cymru
·Bod yn llefarydd arweiniol ar gyfer y sefydliad

Lleoliad: Y swyddfa yng Nghaerdydd, ond rydym yn gyflogwr hyblyg

Bydd angen i ddeiliad y swydd allu teithio'n rheolaidd i Gaerdydd, a rhaid hefyd fod yn barod i deithio i rannau eraill o'r DU neu dramor o bryd i'w gilydd, yn ôl y gofyn. Bydd y swydd yn gofyn am rywfaint o waith gyda'r nos ac ar benwythnosau, a gellir cymryd amser i ffwrdd yn gyfnewid am hyn (TOIL).

Contract: Mae hwn yn gontract parhaol

**Prif Ddyletswyddau**

**Cyfeiriad strategol a llywodraethu**

- Gweithio gyda'r Cadeirydd a'r bwrdd i bennu'r strategaeth a sicrhau bod yr Elusen yn gweithio i gyflawni ei blaenoriaethau strategol.
- Cefnogi'r bwrdd a'i is-bwyllgorau i gynnal trefniadau llywodraethu da, a sicrhau bod ein polisïau yn gyfredol ac yn addas i'r diben.
- Darparu'r holl wybodaeth reoli i'r bwrdd, gan gynnwys cyfrifon rheoli chwarterol y Swyddog Ariannol ac adroddiadau chwarterol y Cyfarwyddwr, a hynny er mwyn cefnogi proses o wneud penderfyniadau o ansawdd da.
- Mynychu cyfarfodydd y bwrdd a phwyllgorau'r bwrdd yn ôl y gofyn.

**Gweithredol a Phobl**

- Darparu arweinyddiaeth gadarn ac empathig i dîm y staff ac i'r gwirfoddolwyr, gan feithrin eu talent a'u helpu i gyflawni eu hamcanion.
- Byw gwerthoedd RhCM (bod yn ddi-ildio, yn gyfrifol ac yn garedig), gyda'r rheiny'n cael eu hamlygu trwy eich gweithredoedd a'ch ymddygiadau.
- Sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau o ran y GDPR a rheoli data.
- Sicrhau rheolaeth ariannol gadarn.
- Sicrhau bod RhCM Cymru yn bodloni ei holl ofynion statudol o ran adrodd.
- Gweithio gyda'r Trysorydd a'r bwrdd i gymeradwyo'r gyllideb.
- Sicrhau bod y cofnodion rheolaeth ariannol yn cael eu cadw'n gywir ac yn gyfredol. Llunio adroddiadau rheolaidd yn ôl y gofyn.

**Codi arian**

- Gweithredu strategaeth codi arian sy'n cefnogi strategaeth ehangach y sefydliad mewn modd cynaliadwy.
- Sicrhau piblinell gadarn o geisiadau am gyllid, ac arwain perthnasoedd â chyllidwyr.

**Polisi a chyfathrebu**

- Arwain agweddau trwy waith RhCM Cymru gyda'r cyhoedd.
- Gwarchod enw da RhCM Cymru mewn perthynas ag ymgyrchu a gwaith polisi seiliedig ar dystiolaeth.
- Dehongli'r dystiolaeth a chynrychioli safbwyntiau polisi RhCM yn hyderus ac yn gywir.
- Bod yn llefarydd arweiniol ar gyfer RhCM Cymru, gan fwrw ymlaen ag ymgyrchoedd grymus a sicrhau ein bod yn cynnal proffil uchel ledled yr holl gyfryngau.
- Mynd ati i ymgysylltu ag aelodau a chefnogwyr RhCM Cymru yn ein gwaith.
- Sicrhau twf ein haelodaeth.
- Meithrin a chynnal partneriaethau a chynghreiriau ag eraill yn y sector menywod a ledled sectorau eraill.
- Goruchwylio'r strategaeth rhanddeiliaid a luniwyd gan y Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus a'r Pennaeth Cyfathrebu.

Nid yw'r disgrifiad swydd hwn yn cynnwys popeth. Efallai y bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd ymgymryd â thasgau a chyfrifoldebau ychwanegol, yn ôl cyfarwyddyd.

| **Profiad** | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Profiad mewn rôl arweiniol tebyg | X | |
| Profiad o ddatblygu a chyflawni strategaethau | X | |
| Profiad o ddatblygu polisïau ac ymgyrchoedd | | X |
| Profiad o lobïo ac ymgyrchu | X | |
| **Sgiliau** | | |
| Sgiliau cyfathrebu cyffredinol rhagorol | | X |
| Nodweddion arweinyddiaeth ac ysgogiadol | X | |
| Sgiliau rhwydweithio, cynrychioli a negodi datblygedig | X | |
| Y gallu i weithio'n hyderus gyda'r wasg a'r cyfryngau darlledu | X | |
| Hanes blaenorol o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill | X | |
| Sgiliau da o ran rheoli pobl, prosiectau a chyllidebau | X | |
| Llythrennedd cyfrifiadurol, yn cynnwys profiad o'r cyfryngau cymdeithasol | X | |
| Cynhyrchu incwm a gwneud ceisiadau i ymddiriedolaethau am gyllid grantiau | X | |
| Siaradwr Cymraeg neu'n meddu ar yr ymrwymiad i ddysgu | | X |

| | | |
|---|---|---|
| **Gwybodaeth** | | |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth sylweddol mewn perthynas â materion cydraddoldeb menywod | X | |
| Gwybodaeth sylweddol am y materion strategol ac ymarferol sy'n effeithio ar sefydliadau sy'n gweithio i gefnogi menywod a merched yng Nghymru | | X |
| Dealltwriaeth o strwythurau a ffordd o weithio y Senedd a San Steffan | X | |
| **Cymwysterau** | | |
| Cymhwyster lefel gradd (neu gymhwyster cyfatebol) | | X |
| **Gofynion eraill** | | |
| Ymrwymiad i ymarfer gwrth-wahaniaethol a chyfleoedd cyfartal. Y gallu i gymhwyso ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud ag amrywiaeth ym mhob maes gwaith. | X | |
| Bydd y rôl yn gofyn am hyblygrwydd ar adegau, gan gynnwys rhywfaint o waith gyda'r nos ac ar benwythnosau, ynghyd â'r gallu i deithio ledled Cymru ac aros i ffwrdd dros nos, yn ôl yr angen. | X | |

**Gwneud cais:**

- Anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol, nad yw'n hirach na dwy ochr A4, yn esbonio'r cyfraniad yr ydych yn teimlo y gallwch ei wneud at lwyddiant RhCM Cymru, a rhowch enghreifftiau o'r modd yr ydych wedi llwyddo i ennill ymgyrchoedd, cynyddu effaith sefydliad ac amlygu sgiliau arweiniol sylweddol.

- Os hoffech gyflwyno eich cais mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni, a byddem yn hapus i ddarparu ar gyfer hyn. Er enghraifft, gallai hwn fod yn recordiad fideo byr (hyd at 5 munud o hyd).

- Gofynnwn i chi hefyd gwblhau'r ffurflen cyfleoedd cyfartal pan fyddwch yn cyflwyno'ch cais. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn cael ei thrin yn gyfrinachol a'i defnyddio at ddibenion ystadegol yn unig, ac ni chaiff ei thrin yn rhan o'ch cais.

- Fel cyflogwr Ymrwymedig Hyderus o ran Anabledd, rydym yn gwarantu cyfweliad i unrhyw berson anabl y mae ei gais yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd. Rhowch wybod i ni os hoffech wneud cais o dan y cynllun hwn.

- Os hoffech gael sgwrs anffurfiol, gyfrinachol, neu os oes arnoch angen unrhyw wybodaeth arall am y rôl, cysylltwch â Kate Carr: kate@arc.cymru. Gall Kate hefyd drefnu sgyrsiau ag un o'n Hymddiriedolwyr cyfredol neu ein Cyfarwyddwr sy'n ymadael.

- Anfonwch y llythyr a'r CV i recruitment@wenwales.org.uk gan nodi 'Recriwtio Prif Swyddog Gweithredol RhCM' yn y llinell pwnc, a hynny erbyn dydd Gwener 7 Gorffennaf 2023, 18:00

**Amserlen Ddangosol:**

·Dyddiad cau: dydd Gwener 7 Gorffennaf 2023, 18:00.

·Y rownd gyntaf o gyfweliadau dros Zoom: dydd Llun 17 Gorffennaf 2023

·Yr ail rownd o gyfweliadau: dydd Iau 20 Gorffennaf 2023